Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod (rhithiol) misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 3ydd o Fehefin 2021.

1 **Presennol** Richard Williams (Cadeirydd) Gwilym Evans Prenteg, Edward Evans Richard Parry – Bryncir, John Jones Clifford Williams – Garndolbenmaen, Megan Lloyd Williams Amanda N Owen – Golan, Huw Pritchard – Pentrefelin, Dafydd Thomas – Penmorfa. Cynghorydd Stephen Churchman.

2 **Ymddiheuriadau** - Anwen Humphreys (dim mynediad i offer TG, cyswllt rheolaidd ar y ffôn), Gwenno Emlyn Huws, Iddon Edwards, Delyth Evans Manon Jones Evans.

3 **Ddim yn bresennol** – Dylan Pritchard. Penderfynwyd cysylltu gyda Dylan Pritchard i holi os yw am barhau ar y Cyngor Cymuned.

4 **Datgan buddiant** – eitem 11 Edward Evans.

5 **Cywirdeb y cyn-gofnodion** – Cofnodion 6/5/21 John Jones yn cynnig ei bod yn gywir ac Edward Evans yn eilio.

6 **Materion yn codi o'r cyn-gofnodion**

Map o Ward Dolbenmaen – adroddodd y Clerc bod hi'n anodd cael map o'r wardiau unigol, ond mae'r gwaith yn parhau.

Llwybrau Cyhoeddus – Tŷ'n Ffridd – Ffridd Newydd, Garndolbenmaen, Bont Wern – Pont Faen, Pentrefelin. Clerc i gysylltu gydag Adran Hawliau Tramwy, Cyngor Gwynedd, i holi os yw'r gwaith wedi cychwyn.

Pentrefelin - Lorïau yn methu mynd o dan Bont y Wern. Yn dilyn ymweliad gan Beiriannydd o Adran Draffig Cyngor Gwynedd, mae arwyddion rhybudd wedi cael eu harchebu. Y bwriad yw eu gosod wrth y Spice Bank yng Nghriccieth. Adroddodd Stephen Churchman ei fod hefyd wedi gofyn i Gyngor Gwynedd rhoi cyfarwyddiadau ynglŷn â'r lôn y dylid ei defnyddio.

Ger y Llwyn, Pentrefelin - mae'r Heddlu angen rhifau cofrestru'r faniau a cheir sy'n parcio ar y lôn. Yn dilyn sgwrs gyda'r Cynghorydd Stephen

Churchman, mae'r Clerc wedi cysylltu gyda Chyngor Gwynedd ynglŷn â'r cerrig sydd wedi cael eu rhoi yn yr afon.

Garndolbenmaen – Problemau parcio. Adroddwyd fod Adran Draffig Cyngor Gwynedd yn bwriadu cynnal ymgynghoriad ym mis Gorffennaf.

Ffordd Mynwent Prenteg – mae'r Brodyr Evans wedi cytuno i wneud y gwaith.

7 **Mynwentydd**

Gofynnwyd i'r Clerc i gysylltu gyda'r Contractwyr sy'n torri gwair y Mynwentydd i'w hatgoffa bod rhaid iddynt ei hysbysu hi ar ôl pob toriad, er mwyn i'r gwaith cael ei archwilio.

Mynwent Bethel

Penderfynwyd archebu mainc o Gardencraft, Tremadog.

Gosodwyd tâp o amgylch y garreg fedd sy'n beryg. Clerc i holi Brodyr Kerrs am bris i lenwi'r twll gyda phridd.

8 **Llwybrau Cyhoeddus**

Tŷ Mawr i Dŷ'n yr Allt Penmorfa - angen torri brigau. Clerc i gysylltu gyda'r Contractwr.

9 **Adroddiad Pentrefi**

Garndolbenmaen – Cambrian Terrace. Biniau a bocsys ail gylchu yn cael eu gadael allan ar y Green. Er i'r Adran Gorfodaeth Stryd, Cyngor Gwynedd gysylltu gyda deiliaid y tai, mae'r biniau yn parhau i fod ar y Green. Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd o hyn.

Pentrefelin/Treflys

Ym mis Chwefror 2021, tynnwyd sylw'r Adran Briffyrdd at ddraen wedi cau rhwng Pont Wern a Thŷ Bryn Derwen. Er ei bod wedi ei lanhau, mae wedi cau eto. Clerc i hysbysu'r Adran Briffyrdd o hyn.

Penmorfa

Caeadau BT yng nghanol y lôn yn symud wrth i lorïau fynd drostynt. Clerc i gysylltu gyda'r Asiantaeth Cefnffyrdd.

Prenteg

Coed yn tyfu allan ar y lôn rhwng Tremadog a Phrenteg yn creu trafferthion i gerbydau uchel. Clerc i gysylltu gyda'r Adran Briffyrdd.

10 **Newid enw eiddo o Cae yr Eithin Tew i Black Lake Cottage**

Tynnwyd sylw'r Cyngor at y ffaith fod enw'r eiddo Cae yr Eithin Tew, Golan wedi cael ei newid i Black Lake Cottage. Penderfynwyd y byddai Megan Lloyd Williams, Amanda N Owen a Gwilym Evans yn ymweld â pherchennog yr eiddo i ofyn iddo ystyried newid yr enw yn ôl i'r gwreiddiol.

11 **Gwaith atgyweirio sied Mynwent Bethel**

Derbyniwyd 3 pris am wneud y gwaith. Penderfynwyd cynnig y gwaith i Mr Eifion Owen.

12 **Gohebiaeth**

Llythyrau Cyngor Gwynedd – Rhybudd 1af Cau'r Ffordd Dosbarth III gyferbyn â Rhandir, Cwmystradllyn. Rhannwyd 24/5/21/
Rhybudd Cau Ffordd Dosbarth III gyferbyn â Warws Melin Llecheiddior. 1/6/21
Ymgynghoriad Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus Rheoli Cŵn.
Rhaglen Waith Trafnidiaeth Mehefin 2001 – Draeniad Cae Llyn, Garndolbenmaen.

Gohebiaeth ychwanegol

a Unllais Cymru – Gweminar am ddim Adfer o Cofid 19 galluogi arweinyddiaeth a phartneriaethau cymunedol allweddol. Rhannwyd 19/5/21.

b Cyngor Tref Nefyn – Gwahoddiad i gyfarfod Zoom – Uno i ddatrys yr argyfwng ail gartrefi. 27/5/21.

c Mantell Gwynedd – Hyfforddiant Hyrwyddwyr Lles yn y Gweithle 2/7/21.

13 **Cynllunio**

Rhestrau – 8/5, 14/5, 21/5/21.

NP2/16/159D Tŷ Mawr, Prenteg. Newydd defnydd tir yn gwrtil domestig a defnydd adeilad allanol yn anecs i'w ddefnyddio yn achlysurol fel annedd i D ystorfa goed yn glwyd i ystlumod. Dim gwrthwynebiad.

NP2/16/459A Tir ger Tŷ'n Llan, Llanfihangel y Pennant, Cwm Pennant.
Codi sied Amaethyddol (322 msg) llain galed a mynedfa. Dim gwrthwynebiad.

NP2/16/6B Tan-y-Bryn, Garndolbenmaen. Cais ôl-weithredol i gadw siale pren mewn cysylltiad â'r tyddyn a busnes contractwr trydanol.
Gwrthwynebu ar sail fod 6 o faniau yn ymweld â'r eiddo yn fuan yn y bore ac drigolion tai cyfagos. Hefyd, mae'r ffordd yn anaddas ar gyfer cael y faniau rheolaidd.

14 **Materion Ariannol**

Ceisiadau am arian: - Cyfeillion Capel Bethania, Pistyll.
Tŷ Gobaith.

Monitro'r Gyllideb: Dim gorwariant yn erbyn y gyllideb a osodwyd.

Biliau i'w talu:

Cyflog Clerc	= £ 253.33
Ffôn	= £ 10.00
Cyfrifiadur	= £ 15.00
HMRC	= £ 63.20

Derbyniadau

Cyngor Gwynedd (Praesept)	£9000.00
Madog Memorials	£ 30.00
Henry Jones Cyf	£ 220.00

Balansau Cyfrifon: Cadw £16,844.31 Cyfredol £22,733.81

15 **Dewis gohebiaeth i fynd i'r Wasg/Gwefan**

- Newid enw eiddo.
- Gwaith cynnal a chadw Mynwent Bethel.
- Ceisiadau Cynllunio.

Gwefan: Cofnodion mis Mai.